

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mawrth 8fed 2016 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (Cadeirydd), Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Jean Roberts, Gwynedd Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Davies, Euros Puw a Rhys Richards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Datganodd Gwynedd Jones ei ddiddordeb yng nghais ariannol Cantref.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Clirio ffosydd.

Cafwyd cadarnhad bod yr adran priffyrdd wedi trefnu i agor a chlirio'r gwteri a'r ffosydd ger Pant Rhedydd, Pont Ffrydan a rhiwiau Llwynhir a Cyffdy. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu yn nol a'r adran i ddiolch iddynt am ei gwaith.

Biniau Halen.

Cafwyd trafodaeth bellach am benderfyniad Cyngor Gwynedd i godi ffi am gyflenwi'r biniau halen. Cytunwyd i gefnogi bwriad Cyngor Cymuned Llandderfel i ofyn i Bartneriaeth Penllyn am eu cefnogaeth i wrthwynebu penderfyniad Cyngor Gwynedd.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Cyfarfod Her Gwynedd – Atgoffwyd y cynghorwyr am y cyfarfod yn Neuadd Buddug ar y 14/3/16 rhwng Cynghorau Chymuned a Thref a Chyngor Gwynedd i drafod yr her ariannol mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu.

b) Heddlu Gogledd Cymru.

i) Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Gwybodaeth am eu 'Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth'.

ii) Heddlu Gogledd Cymru - derbyniwyd llythyr gan Rhingyll tîm Plismona Cymdogaeth De Gwynedd, Iwan Lloyd Jones yn egluro eu bod yn awyddus iawn i sicrhau cydweithio effeithiol gyda'r Cynghorau Cymuned. Derbyniwyd manylion cyswllt y swyddogion lleol ac anogodd y rhingyll i ni gysylltu â'r swyddogion unrhyw bryd oedd angen.

c) Amrywiol

i) Un Llais Cymru - Gwahoddiad i arddwesti Palas Buckingham ym mis Mai 2016.

ii) Ombwdsmon - Cafwyd llythyr yn ein cynghori bod rhifyn newydd 'Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda' ar gael ar eu gwefan. Cytunodd y clerc ddarllen yr adroddiad ac adrodd yn nol yn y cyfarfod nesaf.

iii) Panel Annibynnol Cymru - Cafwyd cadarnhad bod 'Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol' wedi cael ei gyhoeddi.

iv) Ras yr Iaith – Derbyniwyd gwybodaeth am y digwyddiadau yng Ngwynedd ym mis Gorffennaf. Gofynnwyd i'r clerc anfon yn nol i ddatgan cefnogaeth y Cyngor i'r digwyddiadau.

- v) Cyngor Tref Porthmadog - Derbyniwyd cais i hyrwyddo'r cyfarfod cyhoeddus ar y 20/2/16 i drafod bwriad penaethiaid Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gau swyddfa treth incwm yn Nhŷ Moelwyn Porthmadog. Cytunwyd yn unfrydol i ysgrifennu i wrthwynebu'r cynllun i gau'r swyddfa dreth gan ei fod yn wasanaeth gwerthfawr drwy gyfrwng y Gymraeg i drigolion yr ardal.
- vi) GCGIC - Gwahoddiad i'w cyfarfodydd cymunedol i drafod mwy am wasanaethau iechyd lleol.
- vii) Beibl Mary Jones yn dychwelyd i'r Bala – derbyniwyd gwahoddiad i wasanaeth arbennig i groesawu'r Beibl yn nol i'r Bala, yng Nghapel Tegid, Mawrth 19eg.

Materion Ariannol.

Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i diwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog y clerc (Ionawr i ddiwedd Mawrth),
CTHEM (TWE)
Neuadd Maesywaen (Llogi)
Un Llais Cymru (Tal aelodaeth)

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r canlynol :-

Eisteddfod Talybont	£150
Cylch Meithrin/ Ti a Fi Maesywaen	£150
Neuadd Y Parc	£150
Ysgol Bro Tryweryn	£150
Sioe Ardal Maesywaen	£50
Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn	£40
CFFI Meirionnydd	£100
Ambiwlans Awyr Cymru	£100
Hosbis Tŷ'r Eos	£30
Cantref	£60 (Gwynedd Jones yn datgan diddordeb)
Ysgol y Berwyn	£30
Sefydliad Aren Cymru	£30
Tŷ Gobaith	£50
Ffrindiau Neuadd Buddug	£30

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/72/T112B - Adeiladu estyniad i'r to (cynllun diwygiedig). Tŷ Hen, Rhyduchaf.

NP5/72/157B – Dyluniad a gosodiad diwygiedig ar gyfer ty wedi ei ganiatau eisioes. Tyddyn Phillip, Frongoch.

NP5/72/234A – Cynllun trydan dwr – Isafon i Llyn Celyn ger Weirglodd Ddu, Capel Celyn.

NP5/72/134J – Adeiladu ystafell wydr. 5 Maes Gwyn, Rhyduchaf.

Gan fod y Parc Cenedlaethol eisiau ymateb cyn y cyfarfod roedd y clerc wedi cysylltu â'r cynghorwyr i drafod ceisiadau Tŷ Hen, Tyddyn Phillip a'r cynllun trydan dwr, ger Weirglodd Ddu a chytunwyd i'w cefnogi. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gefnogi cais 5 Maes Gwyn hefyd.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/72/235A – Adeiladu stabl a newid defnydd tir. Tyn y Gornel, Frongoch

Materion Lleol.

Cae Chwarae Parc.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt drwsio ffens derfyn y cae chwarae.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Mai 10fed yn Neuadd
Maesywaen am 8.00y.h.